Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant

Yn nhafarn bach y pentra'
Roedd 'na rai yn adrodd chwedla',
Roedd 'na ddeigryn am yn ail â gwên
Wrth ganu'r hen emyna'
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant…

Roedd llond y lle o dwrw,
Sŵn gwydrau gwin a chwrw,
A dyma ŵr bach blin i'r tŷ
Yn rhuo fath â tarw.
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant…

A medda' hwn, dan bwdu,
"Mae 'na rai yn trio cysgu!"
A medden ninna' yn un criw
"Mae hi heddiw'n Ŵyl yng Nghymru:
Dydd Gŵyl Dewi Sant!'

A dyma'r cythraul, felly
Yn coethi a sgyrnygu,
Ac yn chwyrnu wrth ein bygwth ni:
"Dw i'n mynd i alw'r heddlu
I arestio Dewi Sant!"

"Dwi'n eu galw nhw ers awran,
Lle goblyn mae y plisman?"
A medden ninna': "dacw fo
Yn dawnsio dawns y glocsan
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant!"

Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Rhydyclafdy, gyda chymorth Twm Morys
Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, 29/02/08